## Pwy ydym ni?

**Mae prosiect 'Dydy Trosedd Ddim yn Ddigri' yn wasanaeth cyfrinachol, rhad ac am ddim, wedi'i gynllunio'n arbennig i gefnogi dioddefwyr a thystion troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd ledled Cymru.**

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn elusen genedlaethol â gwirfoddolwyr hyfforddedig yn darparu cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda Stonewall Cymru, yr elusen genedlaethol sy'n helpu pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol i fyw yn rhydd rhag dioddef camwahaniaethu neu gamdriniaeth.

Trosedd casineb homoffobaidd neu drawsffobaidd yw unrhyw ddigwyddiad lle mae'r dioddefwr yn cael ei dargedu yn sgil ei gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw. Gall troseddau casineb fel hyn arwain at gosbau llymach os fydd y troseddwr yn cael ei gymryd i'r llys.

## Pwy all dderbyn cefnogaeth?

Byddwn yn cefnogi unrhyw ddioddefwr neu dyst i drosedd – hyd yn oed os nad yw'r heddlu wedi derbyn cwyn.

## Beth fedrwn ni ei gynnig i chi?

Mae **Cymorth i Ddioddefwyr** yn darparu cefnogaeth emosiynol a chyngor ymarferol. Gall hyn gynnwys:

- clust i wrando yn gyfrinachol, am eich teimladau ac effaith y drosedd arnoch.
- adolygu eich diogelwch personol, a helpu i'w wella gyda larymau personol, cadwyni drysau, cloeon ac yn y blaen.
- help i hawlio iawndal am droseddau treisgar.
- gwybodaeth a chefnogaeth wrth ddelio gyda'r heddlu a'r cyfreithwyr cyn, yn ystod ac ar ôl ymchwiliad neu achos llys.

## Credwn fod Amrywiaeth yn bwysig ac yn werthfawr

Canfu arolwg o wirfoddolwyr, staff a chleientiaid Cymorth i Ddioddefwyr Cymru yn 2009 bod yn well ganddynt weithio gydag elusen sy'n gynhwysol i bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

Rydym hefyd yn deall bod llawer o bobl am gadw'n dawel am eu cyfeiriadedd rhywiol – ond gallwch fod yn hyderus bod ein gwasanaeth yn gyfrinachol.

**I ddysgu mwy am y cymorth yr ydym yn ei gynnig, neu sut i helpu ein elusen ffoniwch 0845 6 121 900**

# Gay or straight, crime's no joke

## We'll help you get your smile back



If you've been a victim of a homophobic or transphobic hate crime, we're here to help – whether you're gay or straight.

**0845 6 121 900**

**Victim Support Cymru**

In partnership with Stonewall Cymru

Ariannir y prosiect hwn gan CCHD

Cymorth i Ddioddefwyr, National Centre, Hallam House,
56-60 Hallam Street, Llundain W1W 6JL

Registered charity number 298028

## Who are we?

**The 'It's No Joke' project is a free, confidential service specifically designed to support victims and witnesses of homophobic and transphobic hate crime across Wales.**

Victim Support is a national charity with specially trained volunteers supporting victims and witnesses. We work in partnership with Stonewall Cymru, the national charity helping lesbian, gay and bisexual people to live free from discrimination or abuse.

Homophobic or transphobic hate crime is any incident where the victim is targeted because of their sexual orientation or gender identity. Hate crimes like this can result in stronger punishments if an offender is taken to court.

## Who can get help?

We will support any victim or witness of crime – even if the incident hasn't been reported to the police.

## What can we do for you?

**Victim Support** gives emotional support and practical advice. This can include:

- someone to talk to, confidentially, about your feelings and how the crime has affected you
- reviewing your personal safety and helping improve it with things like personal alarms, door chains and locks
- help claiming compensation for violent crimes
- information and support when dealing with police and solicitors before, during and after an investigation or trial.

## Diversity matters and we value it

A 2009 survey of Victim Support Cymru volunteers, staff and clients found that they prefer to work for a charity that includes people who identify as lesbian, gay or bisexual.

We also understand that many people want to keep issues around their sexual orientation secret – but you can be confident that our service is confidential.

**To find out more about the help we give, or how you can help our charity call 0845 6 121 900.**

# Hoyw neu strêt, dydy trosedd ddim yn ddigri

## Gallwn eich helpu i wenu eto

Os ydych chi wedi dioddef trosedd casineb homoffobaidd neu drawsffobaidd, boed yn hoyw neu strêt, rydym yma i'ch helpu.

**0845 6 121 900**

**Cymorth i Ddioddefwyr Cymru**

Mewn partneriaeth gyda Stonewall CYMRU

This project is funded by the EHRC

Victim Support National Centre, Hallam House,
56-60 Hallam Street, London W1W 6JL

Rhif elusen gofrestredig 298028